Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Y Gwir Anrhydeddus Amber Rudd AS
Yr Ysgrifennydd Cartref
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

19 Ebrill 2018

Annwyl Amber Rudd AS

**PARTH: Archwiliad Dirybudd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi o Ddalfeydd yr Heddlu yn Nyfed-Powys, 6-17 Tachwedd 2017**

Rwy'n hyderus bod ffocws Heddlu Dyfed-Powys ar adnabod a chefnogi pobl sy'n agored i niwed yn cael ei ymgorffori drwy'r heddlu, fel y dangosir o fewn yr archwiliad uchod o ddalfeydd. Mae'n galonogol bod yr Heddlu'n gweithio i ddargyfeirio plant rhag dalfeydd ac i lety mwy priodol cymaint â phosibl, ac yn cyfyngu ar yr amser maen nhw'n treulio yn y ddalfa i'r amser lleiaf posibl.

Er bod diwylliant cryf ar draws yr Heddlu i gefnogi cyflenwi diogel o ran dalfeydd, ac mae carcharorion fel arfer yn cael eu trin â pharch ac yn derbyn lefel gofal da, yng ngoleuni'r ddau adroddiad archwiliad PEEL AHEMGTA, mae'n siomedig nad yw darpariaeth dalfeydd Dyfed-Powys yn ddigonol gyson.

Byddaf yn gofyn i'm Hymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd i adolygu mwy o agweddau o brofiadau carcharorion er mwyn sicrhau bod yr Heddlu'n bodloni anghenion unigolion yn rhagweithiol. Mae fy swyddfa'n talu sylw arbennig i sicrhau ansawdd gweithgareddau goruchwylio a chofnodi'r heddlu drwy fy mhanel craffu annibynnol a gwaith parhaus o ran swyddogaethau archwilio'r Heddlu.

Mae'r Heddlu a'm swyddfa i'n parhau i weithio'n helaeth ar fy Strategaeth Ystadau, sy'n cynnwys dalfa newydd o'r radd flaenaf ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Defnyddir y canfyddiadau o fewn yr adroddiad archwiliad i sicrhau bod y cyfleuster newydd yn addas ar gyfer y diben ac yn mynd i'r afael ag unrhyw ffaeleddau yn y cyfleusterau presennol.

Mae pŵer yr heddlu i ddefnyddio grym rhesymol yn fater o bryder mawr i'r cyhoedd. O'r herwydd, mae fy staff wrthi'n sefydlu sut yr wyf yn cynnal goruchwyliaeth o briodoldeb, cymesuroldeb a chyfiawnhad dros ei ddefnyddio.

Mae'r oedi o ran darparu cymorth arbenigol megis cyngor cyfreithiol, cyfieithwyr, oedolion priodol a sylw meddygol ar gyfer pobl yn y ddalfa'n annerbyniol. Byddaf yn parhau i weithio gyda phartneriaid a darparwyr sydd wedi'u contractio er mwyn anelu at ddarparu gwasanaeth mwy ymatebol a di-dor er mwyn cynnig canlyniadau gwell i bawb. Mae fy swyddfa'n gweithio gyda Heddlu Dyfed-Powys ar hyn

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

o bryd ar gynllun peilot brysbennu'r ddalfa yn Sir Benfro, gyda golwg ar gyflwyno'r cynllun ar draws yr ardal Heddlu. Bwriad y cynllun yw rhoi cymorth i'r rhai sydd yn y ddalfa ddargyfeirio rhag trosedd a mynd i'r afael â materion gwaelodol drwy asesiadau risg cadarn, ymyrraeth gefnogol wedi'i theilwra a chyfeiriadau i bartneriaid.

Hyd yn hyn, rwyf wedi fy nghalonogi gan ymatebolrwydd yr Heddlu i ganfyddiadau'r archwiliad, a byddaf yn gofyn am ddiweddariadau ynghylch cynnydd gan y Prif Gwnstabl maes o law.

Cyhoeddir copi o'r ymateb hwn ar fy ngwefan.

Yr eiddoch yn gywir,

**Dafydd Llywelyn**
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

copi at: Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Peter Clarke CVO OBE QPM, Prif Arolygydd Carchardai EM AEM
AEM Wendy Williams, Arolygydd Cwnstabliaeth EM, Rhanbarth Cymru a'r Gorllewin
Y Prif Gwnstabl Mark Collins, Heddlu Dyfed-Powys